sportwales
chwaraeoncymru

Arolwg Chwaraeon Ysgol

Cyflwr y Genedl

2026

Arolwg Chwaraeon Ysgol

School Sport Survey

Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government

Prif ganfyddiadau:

Cenedl Actif: Faint sy'n cymryd rhan?

Cymerodd **43%** o ddisgyblion ran mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm dair gwaith neu fwy yr wythnos (Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 38). Mae hyn wedi cynyddu **3 phwynt canran** ers 2022.

Pawb: Pwy sy'n cymryd rhan?

Mae gwahaniaeth o **16 pwynt canran** o ran cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm dair gwaith neu fwy yr wythnos rhwng yr ardaloedd lleiaf difreintiedig a'r ardaloedd mwyaf difreintiedig. Mae'r bwlch hwn wedi cynyddu **2 bwynt canran** ers 2022 a **4 pwynt canran** ers 2018.

Gydol Oes: Tueddiadau cymryd rhan a beth yw'r galw?

- Ar gyfartaledd, nododd disgyblion alw am **10 o gampau**.
- Dywedodd **84%** o ddisgyblion eu bod eisiau cymryd rhan mewn o leiaf un gamp nad ydynt yn ei gwneud eisoes.

Mwynhad: Sut mae disgyblion yn teimlo wrth gymryd rhan mewn chwaraeon?

Dywedodd **55%** o ddisgyblion eu bod yn mwynhau 'Llawer' ar chwaraeon mewn Clybiau Chwaraeon Cymunedol, o gymharu â **51%** o ddisgyblion yn mwynhau Addysg Gorfforol a Gwersi Actif, **51%** o ddisgyblion yn mwynhau Lleoliadau Eraill fel y parc neu'r ardd, a **31%** o ddisgyblion yn mwynhau 'Llawer' ar Glybiau Chwaraeon Ysgol.



Cynnwys

1. Cyflwyniad 4

2. Cenedl Actif: Faint o bobl sy'n cymryd rhan? 5

2.1 Cyfranogiad cenedlaethol 5

2.2 Amledd y cyfranogiad cenedlaethol 5

2.3 Amledd cenedlaethol y cymryd rhan mewn lleoliad clwb cymunedol 6

2.4 Darpariaeth AG gwricwlaidd 6

2.5 Ffactorau sy'n dylanwadu ar y ddarpariaeth chwaraeon gwricwlaidd ac allgyrsiol 7

3. Pawb: Pwy sy'n cymryd rhan? 8

3.1 Rhywedd 8

3.2 Anabledd ac anawsterau dysgu 9

3.3 Ethnigrwydd 10

3.4 Yr Iaith Gymraeg 11

3.5 Daearyddiaeth 11

3.6 Amddifadedd economaidd-gymdeithasol 12

4. Gydol Oes: Tueddiadau cymryd rhan, a beth yw'r galw? 13

4.1 Amledd y cymryd rhan yn ôl grŵp blwyddyn 13

4.2 Profiad disgyblion o AG a Gwersi Actif 14

4.3 Galw disgyblion am chwaraeon 15

5. Mwynhad: Sut mae disgyblion yn teimlo wrth gymryd rhan mewn chwaraeon? 16

5.1 Mwynhau chwaraeon, yn ôl lleoliad 16

5.2 Hyder mewn chwaraeon 17

5.3 Beth fyddai'n helpu disgyblion i wneud mwy o chwaraeon? 17

5.4 Beth sydd bwysicaf i ddisgyblion wrth iddynt gymryd rhan mewn chwaraeon? 18

1. Cyflwyniad

Mae'r Adroddiad Cyflwr y Genedl hwn yn edrych ar ganfyddiadau Arolwg Chwaraeon Ysgol 2026 Chwaraeon Cymru.

Yr Arolwg Chwaraeon Ysgol yw un o'r cyfleoedd mwyaf yn y byd, y pen, i bobl ifanc leisio eu barn am chwaraeon. Yn 2026, ymatebodd **122,000** o ddisgyblion o **1,000** o ysgolion a dyma ein harolwg mwyaf ni hyd yma. Cynhaliwyd yr arolwg rhwng y 13eg o Ebrill a'r 17eg o Orffennaf 2026.

Mae'r Arolwg Chwaraeon Ysgol yn arolwg cenedlaethol ar-lein ar gyfer disgyblion ym Mlynyddoedd 3 i 11. Anfonir dolenni i'r arolwg at bob ysgol yng Nghymru a chaiff y rhain eu rhannu gyda disgyblion yn yr ystafell ddosbarth. Darperir arweiniad i athrawon hefyd i'w helpu i gefnogi eu disgyblion, os bydd angen.

Mae'r arolwg yn casglu gwybodaeth am agweddau, ymddygiadau a chyfleoedd pobl ifanc mewn chwaraeon. Mae'r arolwg yn allweddol i ddeall pwy sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon, ble maent yn gwneud hynny, pa mor aml, a pha fath o chwaraeon y mae galw amdanynt ymhlith pobl ifanc.

Caiff athrawon gyfle hefyd i rannu eu barn ar y ddarpariaeth chwaraeon mewn ysgolion, a'r gefnogaeth sydd arnynt ei hangen i'w chyflwyno.

Mae canlyniadau'r arolwg yn galluogi Chwaraeon Cymru, ysgolion, awdurdodau lleol, chwaraeon a'r sector ehangach i siapio dyfodol chwaraeon, yn unol â lleisiau pobl ifanc.

Mae'r adroddiad hwn yn cynnwys crynodeb o ddata allweddol sy'n helpu i sicrhau gwell dealltwriaeth o'r tirlun chwaraeon i bobl ifanc ledled Cymru, gan ddarparu sylfaen o dystiolaeth ar gyfer siapio polisi ac arferion.

Mae posib archwilio'r data yn yr adroddiad hwn yn fanylach drwy ein dangosfwrdd rhyngweithiol ar-lein, sydd ar gael ar dudalen we Arolwg Chwaraeon Ysgol Chwaraeon Cymru. Mae'r data wedi cael eu cyflwyno yn unol â'r Weledigaeth ar gyfer Chwaraeon yng Nghymru.

Diolch yn fawr

Hoffai Chwaraeon Cymru ddiolch yn fawr iawn i bawb a gymerodd ran yn Arolwg Chwaraeon Ysgol 2026 ac a aeth ati i gefnogi a hwyluso ei gynnal.

2. Cenedl Actif: Faint o bobl sy'n cymryd rhan?

Y weledigaeth ar gyfer chwaraeon yng Nghymru yw creu cenedl actif, gyda chymaint o bobl â phosibl yn cael eu hysbrydoli i fod yn actif drwy chwaraeon.

Mae'r adran ganlynol yn edrych ar amrywiaeth o ddata o'r Arolwg Chwaraeon Ysgol, gan edrych ar gyfranogiad a darpariaeth, er mwyn helpu i sicrhau dealltwriaeth well o lefelau gweithgarwch chwaraeon a chyfleoedd i bobl ifanc yng Nghymru.



2.1 Cyfranogiad cenedlaethol

Ledled Cymru, cymerodd **98%** o ddisgyblion ran mewn o leiaf un gamp yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, gan gyfateb i fwy na **301,000** o ddisgyblion.

Mae'r cyfranogiad yn amrywio yn ôl y lleoliad:

- **Cymerodd 86% (263,000)** o ddisgyblion ran mewn chwaraeon mewn AG neu Amser Gwersi
- **Cymerodd 39% (119,000)** o ddisgyblion ran mewn chwaraeon mewn Clybiau Chwaraeon Ysgol
- **Cymerodd 62% (191,000)** o ddisgyblion ran mewn chwaraeon mewn Clybiau Chwaraeon Cymunedol
- **Cymerodd 80% (244,000)** o ddisgyblion ran mewn chwaraeon mewn Lleoliad Arall

2.2 Amledd y cyfranogiad cenedlaethol

Mae Dangosydd Cenedlaethol 38 o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn tracio canran y bobl sy'n cymryd rhan mewn gweithgareddau chwaraeon dair gwaith neu fwy yr wythnos.

Ar gyfer plant a phobl ifanc, defnyddir cyfranogiad wythnosol mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm i dracio cynnydd yn erbyn y dangosydd hwn. Mae hyn yn cyfeirio at chwaraeon mewn Clybiau Ysgol a Chlybiau Cymunedol. Drwy gydol yr adroddiad hwn, defnyddir y term byrrach 'Chwaraeon Clwb'.

Yn 2026:

- Cymerodd **38% (117,000)** o ddisgyblion ran mewn chwaraeon clwb lai nag unwaith yr wythnos
- Cymerodd **9% (29,000)** o ddisgyblion ran mewn chwaraeon clwb unwaith yr wythnos
- Cymerodd **10% (30,000)** o ddisgyblion ran mewn chwaraeon clwb ddwywaith yr wythnos
- Cymerodd **43% (130,000)** o ddisgyblion ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos

O gymharu â 2022, mae cyfran y disgyblion sy'n cymryd rhan mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos wedi cynyddu o **3 phwynt canran**, fodd bynnag, mae'r gyfran sy'n nodi nad ydynt yn cymryd rhan yn rheolaidd wedi cynyddu o **3 phwynt canran** hefyd.

2.3 Amledd cenedlaethol y cymryd rhan mewn lleoliad clwb cymunedol

Cymerodd **55% (168,000)** o ddisgyblion ran mewn chwaraeon mewn lleoliad clwb cymunedol unwaith yr wythnos o leiaf yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf. Mae hyn yn debyg i'r sefyllfa yn 2022.

Y chwaraeon mwyaf poblogaidd y cymerodd disgyblion ran ynddynt drwy glybiau chwaraeon cymunedol unwaith yr wythnos o leiaf oedd:

- Pêl-droed – **22% (68,000)** o ddisgyblion yn cymryd rhan yn wythnosol
- Nofio – **11% (33,000)** o ddisgyblion yn cymryd rhan yn wythnosol
- Rygbi – **9% (29,000)** o ddisgyblion yn cymryd rhan yn wythnosol
- Rhedeg neu loncian – **8% (26,000)** o ddisgyblion yn cymryd rhan yn wythnosol
- Dawns – **7% (20,000)** o ddisgyblion yn cymryd rhan yn wythnosol

2.4 Darpariaeth AG gwricwlaidd

Adroddodd athrawon ar faint o amser a dreuliwyd yn darparu AG gwricwlaidd yn ystod blwyddyn academaidd 2025-26. Mae'r tabl yn dangos y munudau yr wythnos ar gyfartaledd a ddarparwyd ar gyfer ysgolion Cynradd ac Uwchradd ledled Cymru.

Tabl 1: Munudau o AG gwricwlaidd ar gyfartaledd yr wythnos, yn ôl sector.

Math o Ysgol	2018	2022	2026
Ysgolion Cynradd	**99 munud**	**93 munud**	**84 munud**
Ysgolion Uwchradd	**95 munud**	**93 munud**	**103 munud**

2.5 Ffactorau sy'n dylanwadu ar y ddarpariaeth chwaraeon gwricwlaidd ac allgyrsiol

Dywedodd athrawon wrthym pa ffactorau sy'n dylanwadu ar y chwaraeon a gynigir fel rhan o ddarpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol. Gallai athrawon ddewis ffactorau lluosog ac mae'r tabl yn dangos cyfran yr athrawon a ddewisodd bob ffactor ar gyfer darpariaeth gwricwlaidd ac allgyrsiol.

Tabl 2: Ffactorau'n dylanwadu ar ddarpariaeth chwaraeon gwricwlaidd ac allgyrsiol

Ffactor	Darpariaeth chwaraeon gwricwlaidd	Darpariaeth chwaraeon allgyrsiol
Y cyfleusterau chwaraeon sydd ar gael yn yr ysgol neu yn y gymuned	87%	71%
Mynediad at yr offer chwaraeon angenrheidiol	85%	64%
Sgiliau staff	82%	71%
Dewisiadau disgyblion	50%	43%
Cyfleoedd i gystadlu'n lleol	44%	23%
Capasiti staff	50%	49%
Hyfforddiant staff blaenorol	33%	23%
Dewisiadau staff	37%	44%
Cefnogaeth ychwanegol	17%	11%
Cynsail hanesyddol (h.y. rydyn ni wastad wedi gwneud hyn)	19%	10%
Arall	6%	10%

3. Pawb:
Pwy sy'n cymryd rhan?



Mae'r weledigaeth ar gyfer pawb. O bobl sydd ddim yn ystyried eu hunain fel rhai medrus mewn chwaraeon i bobl sy'n ennill medalau.

Mae'r adran hon yn edrych ar gyfranogiad ac amledd y cymryd rhan yn ôl daearyddiaeth a demograffeg, gan edrych ar debygrwydd neu wahaniaethau rhwng y grwpiau hyn er mwyn sicrhau bod manteision chwaraeon yn cyrraedd pob person ifanc ledled Cymru.

3.1 Rhywedd

Cymerodd **47% (71,000)** o fechgyn ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â **39% (57,000)** o ferched.

Gwelwyd patrwm tebyg yn 2022, pan gymerodd **43%** o fechgyn a **36%** o ferched ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos.

Yn 2026, roedd disgyblion yn gallu nodi eu rhywedd fel anneuaidd. Cymerodd **33% (1,000)** o ddisgyblion anneuaidd, a **29% (1,000)** o ddisgyblion oedd yn ffafrio peidio â nodi eu rhywedd, ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos.

Graff 1: Amledd y cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm, yn ôl rhywedd.



3.2 Anabledd ac anawsterau dysgu

Cymerodd **39% (25,000)** o ddisgyblion ag anabledd ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â **45% (83,000)** o ddisgyblion heb anabledd.

Graff 2: Amledd y cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm, yn ôl anabledd.



Cymerodd **40% (12,000)** o ddisgyblion ag anhawster dysgu ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â **44% (101,000)** o ddisgyblion heb anhawster dysgu.

Graff 3: Amledd y cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm, yn ôl anhawster dysgu.



Gofynnodd Arolwg Chwaraeon Ysgol 2026 gyfres o gwestiynau hefyd ynglŷn â'r cyfleoedd, y sgiliau a'r adnoddau sydd ar gael i ysgolion ddarparu AG, chwaraeon a gweithgarwch corfforol i ddisgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

- Dywedodd **87%** o ysgolion bod disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn cael y cyfle i gymryd rhan mewn Chwaraeon, gwersi AG a gweithgarwch corfforol drwy'r amser.
- Dywedodd **86%** o ysgolion bod ganddynt fannau hygyrch i gyflwyno gweithgareddau'n gynhwysol.
- Dywedodd **79%** o ysgolion bod eu staff yn hyderus wrth addasu gweithgareddau a thasgau er mwyn cynnwys disgyblion anabl a disgyblion sydd ag anghenion `dysgu ychwanegol.
- Dywedodd **65%** o ysgolion eu bod yn defnyddio pobl ychwanegol neu staff cefnogi i gefnogi cynhwysiant.
- Dywedodd **56%** o ysgolion bod ganddynt offer sy'n galluogi cynhwysiant.

3.3 Ethnigrwydd

Cymerodd **45% (5,000)** o ddisgyblion o grwpiau ethnig Cymysg neu Luosog ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â **34% (2,000)** o ddisgyblion o grwpiau ethnig Eraill.

Tabl 3: Cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm dair gwaith neu fwy yr wythnos, yn ôl ethnigrwydd

Ethnigrwydd	Canran	Nifer y Disgyblion
Gwyn	44%	104,000
Grŵp ethnig Cymysg neu Luosog	45%	5,000
Asiaidd, Asiaidd Cymreig neu Asiaidd Prydeinig	35%	4,000
Du, Du Cymreig, Du Prydeinig, Caribïaidd, neu Affricanaidd	41%	4,000
Grŵp ethnig arall	34%	2,000

3.4 Yr Iaith Gymraeg

Cymerodd **52% (31,000)** o ddisgyblion a ddywedodd eu bod yn siarad Cymraeg yn dda iawn ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos, o gymharu â **32% (7,000)** o ddisgyblion a ddywedodd nad ydynt yn siarad Cymraeg.

Tabl 4: Cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm dair gwaith neu fwy yr wythnos, yn ôl gallu yn yr iaith Gymraeg

Siarad Cymraeg	Canran	Nifer y Disgyblion
Da iawn	52%	31,000
Cryn dipyn	45%	24,000
Ychydig	42%	44,000
Dim ond ychydig eiriau	36%	24,000
Ddim yn siarad Cymraeg	32%	7,000

Gofynnwyd i ddisgyblion a ddywedodd eu bod yn gallu siarad ychydig o Gymraeg, cryn dipyn o Gymraeg, neu siarad Cymraeg yn dda iawn a ydynt yn siarad Cymraeg fel rheol wrth gymryd rhan mewn chwaraeon.

Ymhlith y disgyblion sy'n siarad Cymraeg, nododd **14% (39,000)** eu bod yn siarad Cymraeg fel rheol wrth gymryd rhan mewn chwaraeon, a nododd **86% (244,000)** nad ydynt yn siarad Cymraeg fel rheol wrth gymryd rhan mewn chwaraeon.

3.5 Daearyddiaeth

Mae cyfranogiad mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos yn amrywio rhwng Rhanbarthau Partneriaethau Chwaraeon Gorllewin Cymru a Gwent.

- Yng Ngorllewin Cymru, mae **45% (30,000)** o ddisgyblion yn cymryd rhan dair gwaith neu fwy yr wythnos
- Yng Nghanolbarth Cymru, mae **44% (8,000)** o ddisgyblion yn cymryd rhan dair gwaith neu fwy yr wythnos
- Yng Nghanolbarth De Cymru, mae **43% (42,000)** o ddisgyblion yn cymryd rhan dair gwaith neu fwy yr wythnos
- Yn y Gogledd, mae **41% (27,000)** o ddisgyblion yn cymryd rhan dair gwaith neu fwy yr wythnos
- Yng Ngwent, mae **40% (24,000)** o ddisgyblion yn cymryd rhan dair gwaith neu fwy yr wythnos

3.6 Amddifadedd economaidd-gymdeithasol

Yn yr Arolwg Chwaraeon Ysgol, defnyddir statws Prydau Ysgol Am Ddim (PYADd) fel mesur o amddifadedd economaidd-gymdeithasol. Mae disgyblion yn Chwartel 1 PYADd yn cynrychioli'r disgyblion lleiaf difreintiedig, ac mae disgyblion yn Chwartel 4 PYADd yn cynrychioli'r disgyblion mwyaf difreintiedig.

Yn 2026:

- Cymerodd **51% (34,000)** o ddisgyblion yn Chwartel 1 PYADd ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos
- Cymerodd **44% (36,000)** o ddisgyblion yn Chwartel 2 PYADd ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos
- Cymerodd **40% (32,000)** o ddisgyblion yn Chwartel 3 PYADd ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos
- Cymerodd **35% (25,000)** o ddisgyblion yn Chwartel 4 PYADd ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos.

Roedd gwahaniaeth o **16 pwynt canran** rhwng disgyblion yn y chwartel mwyaf difreintiedig (PYADd4) a'r rhai yn y chwartel lleiaf difreintiedig (PYADd1) o ran y gyfran a gymerodd ran mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos.

Mae'r gwahaniaeth hwn wedi cynyddu ers 2022 pan welwyd gwahaniaeth o **14 pwynt canran** rhwng y lleiaf a'r mwyaf difreintiedig.

4. Gydol Oes: Tueddiadau cymryd rhan, a beth yw'r galw?



Mae'r weledigaeth yn un gydol oes. Mae'n ymateb i anghenion pobl mewn gwahanol gamau yn eu bywydau.

Mae'r adran hon yn edrych ar ffactorau gwahanol a allai effeithio ar gyfranogiad pobl ifanc mewn chwaraeon mewn gwahanol gamau yn eu bywydau.

4.1 Amledd y cymryd rhan yn ôl grŵp blwyddyn

Y cyfranogiad ymhlith disgyblion Blynyddoedd 5 a 6 oedd yr uchaf o gymharu â'r holl grwpiau blwyddyn eraill, gyda **46% (32,000)** o ddisgyblion yn cymryd rhan mewn chwaraeon clwb dair gwaith neu fwy yr wythnos.

Graff 4: Cymryd rhan mewn chwaraeon wedi'u trefnu y tu allan i'r cwricwlwm dair gwaith neu fwy yr wythnos, yn ôl grwpiau blwyddyn ysgol.



4.2 Profiad disgyblion o AG a Gwersi Actif

Nod y Cwricwlwm i Gymru ar gyfer ysgolion yw cefnogi dysgwyr i ddod yn hyderus, yn iach ac yn barod i ddysgu am oes. Gall AG a Gwersi Actif gyfrannu at y nodau hyn:

- Dywedodd **47% (131,000)** o ddisgyblion bod AG a Gwersi Actif yn gwneud iddynt deimlo'n 'Hynod' hyderus.
- Dywedodd **53% (150,000)** o ddisgyblion bod AG a Gwersi Actif yn gwneud iddynt deimlo'n 'Hynod' iach.
- Dywedodd **44% (125,000)** o ddisgyblion bod AG a Gwersi Actif yn gwneud iddynt deimlo'n 'Hynod' barod i ddysgu.

Graff 5: Barn disgyblion am AG a Gwersi Actif yn gwneud iddynt deimlo'n 'Hynod' Hyderus, Iach a Pharod i Ddysgu, yn ôl Sector.



Roedd canran y disgyblion mewn Ysgolion Uwchradd a ddywedodd eu bod yn teimlo'n 'Hynod' Hyderus, Iach a Pharod i Ddysgu mewn AG a Gwersi Actif yn is na chanran y disgyblion mewn Ysgolion Cynradd.

- Mae gwahaniaeth o **22 pwynt canran** rhwng canran y disgyblion Cynradd a'r disgyblion Uwchradd a ddywedodd eu bod yn teimlo'n 'Hynod' Hyderus.
- Mae gwahaniaeth o **20 pwynt canran** rhwng canran y disgyblion Cynradd a'r disgyblion Uwchradd a ddywedodd eu bod yn teimlo'n 'Hynod' Iach.
- Mae gwahaniaeth o **18 pwynt canran** rhwng canran y disgyblion Cynradd a'r disgyblion Uwchradd a ddywedodd eu bod yn teimlo'n 'Hynod' Barod i Ddysgu.

4.3 Galw disgyblion am chwaraeon

Ar gyfartaledd, nododd disgyblion alw am **10 o gampau.**

Mae'r rhain yn cynnwys chwaraeon y mae disgyblion eisoes yn cymryd rhan ynddynt ac yr hoffent eu gwneud yn amlach, yn ogystal â chwaraeon nad ydynt yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd ond yr hoffent gael cyfle i roi cynnig arnynt.

Y chwaraeon mwyaf cyffredin roedd disgyblion yn dweud eu bod eisiau gwneud mwy ohonynt oedd:

- **39% (119,000)** o ddisgyblion eisiau gwneud mwy o Nofio
- **38% (117,000)** o ddisgyblion eisiau gwneud mwy o Bêl Droed
- **31% (96,000)** o ddisgyblion eisiau gwneud mwy o Redeg neu Loncian
- **30% (92,000)** o ddisgyblion eisiau gwneud mwy o Drampolinio
- **29% (89,000)** o ddisgyblion eisiau gwneud mwy o Dennis
- **28% (86,000)** o ddisgyblion eisiau gwneud mwy o Bêl Osgoi.

Adroddodd 84% o ddisgyblion fod ganddynt alw am chwaraeon nad ydynt yn cymryd rhan ynddynt ar hyn o bryd, sy'n cyfateb i 256,000 o ddisgyblion. Ymhlith y chwaraeon mwyaf cyffredin yr hoffai disgyblion gymryd rhan ynddynt, ond nad ydynt yn gwneud hynny ar hyn o bryd, roedd y canlynol:

- **19% (58,000)** o ddisgyblion â galw heb ei fodloni am Drampolinio
- **15% (45,000)** o ddisgyblion â galw heb ei fodloni am Saethu Targedau
- **14% (44,000)** o ddisgyblion â galw heb ei fodloni am Saethyddiaeth
- **14% (43,000)** o ddisgyblion â galw heb ei fodloni am Focsio
- **14% (43,000)** o ddisgyblion â galw heb ei fodloni am Sglefrio ar Iâ
- **14% (42,000)** o ddisgyblion â galw heb ei fodloni am Ddringo Creigiau neu Feini Mawr.

5. Mwynhad: Sut mae disgyblion yn teimlo wrth gymryd rhan mewn chwaraeon?



Mae'r weledigaeth yn canolbwyntio ar greu ystod eang o brofiadau cadarnhaol fel bod pawb yn gallu mwynhau chwaraeon.

Mae'r adran hon yn edrych ar ddata sy'n ymwneud â barn disgyblion am eu profiadau chwaraeon, yn ogystal â barn staff ar y ddarpariaeth o weithgarwch corfforol.

5.1 Mwynhau chwaraeon, yn ôl lleoliad

Dywedodd disgyblion wrthym faint roeddent yn mwynhau chwaraeon mewn gwahanol leoliadau, o 'Llawer' i 'Dim o gwbl'

- Dywedodd **51% (143,000)** o ddisgyblion eu bod yn mwynhau 'Llawer' ar chwaraeon yn ystod AG a Gwersi Actif
- Dywedodd **31% (87,000)** o ddisgyblion eu bod yn mwynhau 'Llawer' ar chwaraeon mewn Clybiau Chwaraeon Ysgol
- Dywedodd **55% (157,000)** o ddisgyblion eu bod yn mwynhau 'Llawer' ar chwaraeon mewn Clybiau Chwaraeon Cymunedol
- Dywedodd **51% (145,000)** o ddisgyblion eu bod yn mwynhau 'Llawer' ar chwaraeon mewn Lleoliadau Eraill, fel y Parc neu'r Ardd.

5.2 Hyder mewn chwaraeon

Dywedodd disgyblion wrthym hefyd sut maent yn teimlo mewn gwahanol sefyllfaoedd, o 'Hynod hyderus' i 'Ddim yn hyderus o gwbl':

- Dywedodd **45% (127,000)** o ddisgyblion eu bod yn 'Hynod Hyderus' wrth ddysgu sgil newydd
- Dywedodd **35% (99,000)** o ddisgyblion eu bod yn 'Hynod Hyderus' wrth roi cynnig ar gamp newydd
- Dywedodd **36% (102,000)** o ddisgyblion eu bod yn 'Hynod Hyderus' wrth roi cynnig ar gamp mewn lleoliad newydd
- Dywedodd **42% (119,000)** o ddisgyblion eu bod yn 'Hynod Hyderus' i roi cynnig arall arni pan mae chwaraeon yn anodd.

5.3 Beth fyddai'n helpu disgyblion i wneud mwy o chwaraeon?

Dywedodd disgyblion wrthym beth fyddai'n eu helpu i wneud mwy o chwaraeon. Gallai'r disgyblion ddewis mwy nag un ateb.

- Dywedodd **59% (166,000)** o ddisgyblion y byddent yn gwneud mwy o chwaraeon pe bai mwy o chwaraeon roeddent yn eu hoffi
- Dywedodd **32% (90,000)** o ddisgyblion y byddent yn gwneud mwy o chwaraeon pe baent yn teimlo'n fwy hyderus
- Dywedodd **22% (62,000)** o ddisgyblion y byddent yn gwneud mwy o chwaraeon pe baent yn teimlo'n fwy cyfforddus
- Dywedodd **21% (60,000)** o ddisgyblion y byddent yn gwneud mwy o chwaraeon pe bai'n haws cymryd rhan
- Dywedodd **20% (56,000)** o ddisgyblion y byddent yn gwneud mwy o chwaraeon pe baent yn teimlo mwy o gymhelliant
- Dywedodd **12% (34,000)** o ddisgyblion y byddent yn gwneud mwy o chwaraeon pe bai ganddynt yr hyn oedd ei angen neu pe bai'n costio llai
- Dywedodd **13% (36,000)** o ddisgyblion na fyddai'r un o'r rhesymau hyn yn eu helpu i wneud mwy o chwaraeon, a dywedodd **7% (20,000)** y byddai rhesymau eraill yn eu helpu i wneud mwy o chwaraeon.

5.4 Beth sydd bwysicaf i ddisgyblion wrth iddynt gymryd rhan mewn chwaraeon?

Dywedodd disgyblion wrthym beth sydd bwysicaf iddynt wrth gymryd rhan mewn chwaraeon. Gallai disgyblion ddewis mwy nag un ateb.

- Dywedodd **80% (223,000)** o ddisgyblion mai cael hwyl oedd y peth pwysicaf
- Dywedodd **61% (171,000)** o ddisgyblion mai bod gyda ffrindiau oedd y peth pwysicaf
- Dywedodd **50% (140,000)** o ddisgyblion mai gwella eu sgiliau oedd y peth pwysicaf
- Dywedodd **41% (115,000)** o ddisgyblion mai teimlo'n hyderus oedd y peth pwysicaf
- Dywedodd **30% (82,000)** o ddisgyblion mai ennill oedd y peth pwysicaf
- Dywedodd **26% (74,000)** o ddisgyblion mai hoffi eu hyfforddwr neu eu hathro oedd y peth pwysicaf
- Dywedodd **26% (73,000)** o ddisgyblion mai teimlo'n ddiogel oedd y peth pwysicaf
- Dywedodd **17% (48,000)** o ddisgyblion mai cael mynediad at offer a chyfleusterau da oedd y peth pwysicaf
- Dywedodd **2% (7,000)** nad oedd yr un o'r rhain yn bwysicaf iddynt, a dywedodd **2% (6,000)** mai rhesymau eraill oedd bwysicaf iddynt.